Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

HEFCW newsletter
Newyddlen CCAUC

Yn y rhifyn hwn (cynnwys Cymraeg)
In this issue (English content)

February 2009

Please contact Emma Raczka on 029 2068 2225 or at emma.raczka@hefcw.ac.uk if you would like this newsletter in an alternative format, such as large text, Braille, CD or audio CD.

Skip to content

Chwefror 2009

Cysylltwch ag Emma Raczka ar 029 2068 2225 neu ar emma.raczka@hefcw.ac.uk os byddech am dderbyn y newyddlen ar ffurf arall, er enghraifft Word, testun mawr neu Braille.

Neidio i'r cynnwys

Yn y rhifyn hwn

- Gwefan CCAUC
- Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol CCAUC ac Adroddiad Blynyddol 2007-08
- Canlyniadau Ymarfer Asesu Ymchwil yng Nghymru
- Penodi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Gwefan CCAUC

Byddwn yn lansio gwefan newydd yn 2009.

I'n helpu i ddarparu'r wefan orau bosibl, mae gennych tan Ddydd Gwener, 20 Chwefror i lenwi holiadur ar-lein am eich arferion ac anghenion mewn perthynas â gwefan CCAUC. Cyrchwch yr holiadur yma.

www.hefcw.ac.uk

Arolwg o wefan CCAUC

- Cyhoeddiad GO Wales gwerth £17 miliwn
- Y Cynllun Dyfarniadau Myfyrwyr Ymchwil Tramor (ORSAS)
- Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2008
- Cynhadledd ar *Gynorthwyo Plant dan Ofal ac Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch* 2008
- Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhyddhau adroddiad ar Gydweithio gyda'r Sector Addysg Uwch
- Dadansoddiad o sefyllfa ariannol y sector AU 2006/07
- Prifysgol yn Ennill Gwobr Busnes a Chynaliadwyedd am Adrodd Amgylcheddol
- Astudiaeth o Arfer Da mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang
- Fforwm Polisi Lefel Uchel Uned Ewrop AU y DU
- Consortiwm Rhyngwladol Cymru
- Adroddiad arbennig: Y Rhaglen Rheoli Gwybodaeth ar Draws Partneriaid (MIAP)
- Cylchlythyrau
- Amdanom ni

Dolenni

Adroddiad Blynyddol CCAUC 2007-08

www.hefcw.ac.uk

Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol CCAUC

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol 2008 CCAUC ar 9 Rhagfyr 2008 yn adeilad ATRiuM Prifysgol Morgannwg yng nghanol dinas Caerdydd.

Mynychwyd y cyfarfod gan staff o sefydliadau addysg uwch, partner gyrff ac eraill sydd â diddordeb mewn addysg uwch.

Lansiwyd ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf yn y cyfarfod. Gellir llwytho copi i lawr yma. Neu e-bostiwch info@hefcw.ac.uk i ofyn am gopi papur.

yn ôl

Rhyddhau canlyniadau ymchwil Cymru

Gwnaeth 11 o sefydliadau yng Nghymru gyfanswm o 144 o gyflwyniadau i'r ymarfer, a oedd yn cwmpasu 2,578 o aelodau staff – dros 10% yn fwy nag ar gyfer yr ymarfer diwethaf yn 2001.

Mae prifysgolion yng Nghymru yn parhau i wneud gwaith ymchwil o safon fyd-eang yn ôl canlyniadau Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) 2008 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr.

Mae'r ymarfer, sy'n asesu ansawdd yr ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch drwy'r DU, yn dangos bod Cymru'n parhau i chwarae rhan egnïol ar lwyfan ymchwil y DU.

Gwelwyd perfformiadau cryf mewn ystod o bynciau, a sicrhawyd canlyniadau o safon fyd-eang mewn meysydd oedd yn cynnwys peirianneg sifil, cyfrifiadureg a hysbyseg, seiciatreg a niwrowyddoniaeth, seicoleg ac astudiaethau Celtaidd.

Barnwyd bod 14% o'r holl weithgaredd ymchwil a gyflwynwyd gan sefydliadau Cymru yn 'arwain y byd', a bod 35% arall yn 'rhagorol ar raddfa ryngwladol'.

Meddai Roger Thomas, Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru: "Rydym yn falch iawn o weld perfformiad ymchwil cryf gan brifysgolion Cymru mewn cymaint o feysydd. Yr her bellach yw defnyddio'r cryfderau hyn i roi hwb i economi gwybodaeth Cymru a chreu

Cysylltu â ni

www.hefcw.ac.uk

info@hefcw.ac.uk

emma.raczka@hefcw.ac.uk

cyfoeth a swyddi, sy'n arbennig o bwysig o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol."

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Dylem ddathlu'r ymchwil penigamp sy'n cael ei wneud mewn addysg uwch yng Nghymru, a'r cyfraniad mae'n ei wneud at enw da Cymru yn y byd.

"Serch hynny, rydym ni'n cydnabod bod ymchwil yn dal yn broses hynod o gystadleuol. Byddwn ni'n parhau i weithio i gryfhau'r sylfaen ymchwil yng Nghymru. Mae cynnal ein safle uchel yn wyneb cystadleuaeth o wledydd eraill y DU a gwledydd tramor yn parhau'n her fawr i ni yn CCAUC ac i'r rheiny yn ein prifysgolion sydd â'r dasg o godi ein huchelgeisiau ymchwil yn barhaus."

www.rae.ac.uk

yn ôl

Penodi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

"Mae swyddogaeth allweddol Addysg Uwch yn bwysicach nac erioed i Gymru o ran hyrwyddo arloesedd, ymchwil a menter.

"Rwy'n falch dros ben ein bod wedi gallu denu aelodau o safon cystal i'r Cyngor, ac edrychaf ymlaen at gydweithio â hwy, boed hynny am y tro cyntaf neu o'r newydd."

Y Prif Weinidog, Rhodri Morgan

Mae Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, wedi cyhoeddi y byddai pedwar aelod newydd yn cael eu penodi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ac un o'r aelodau presennol yn cael ei ailbenodi.

Yr aelodau newydd yw'r Athro Katherine Oglesby, y Fonesig Alexandra Burslem, Mr David Allen a'r Athro Anthony Hazell. Ailbenodwyd Syr Brian Smith am drydydd tymor.

Dywedodd Jane Hutt: "Mae'n bleser gallu penodi pobl sydd â phrofiad a gwybodaeth sylweddol i wasanaethau ar y Cyngor. Edrychaf ymlaen at gydweithio'n agos â hwy dros y blynyddoedd nesaf."

Mwy

Menter sgiliau sy'n werth £17 miliwn yn cael sêl bendith

Ers symud i Bontypridd ddeunaw mis yn ôl, mae Concrete Canvas wedi mynd o nerth i nerth, trwy ennill cytundeb gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gyflenwi 'Concrete Cloth' i'r rheng flaen yn Affganistan.

Sefydlodd William Crawford a Peter Brewin y cwmni sy'n cynhyrchu llochesau caled y mae modd eu hadeiladu trwy ddefnyddio dim ond dŵr ac aer ac sy'n gallu cael eu gosod yn gyflym. Mae'r technolegau 'concrete cloth' hyn yn gallu rhoi lloches hollbwysig i'r rheini sydd mewn ardaloedd rhyfel, mewn gwersylloedd ffoaduriaid neu mewn ardaloedd trychineb. Mae William yn dweud mai recriwtio'r bobl iawn yw'r allwedd i lawer o lwyddiannau'r cwmni.

Meddai: "Mae rhaglen GO Wales wedi bod yn ffordd ddelfrydol o ganfod y bobl iawn i'n cwmni. Mae rhaglen o'r math hwn mor werthfawr oherwydd ei bod wedi'n galluogi i feithrin cyswllt ag ystod helaeth o fyfyrwyr a

Cyhoeddodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fod menter, sy'n werth £17 miliwn, i helpu graddedigion i gael y dechrau gorau i'w gyrfa wedi cael sêl bendith i gael cyllid cydgyfeirio.

Bydd GO Wales yn rhoi hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i bron 4,000 o fyfyrwyr a graddedigion i'w paratoi ar gyfer byd busnes. Bydd y cynllun yn ffocysu ar leoliadau gwaith ac yn golygu bod BBaCh a sefydliadau eraill yn cael mynediad at sgiliau lefel uwch i roi hwb i weithgarwch eu busnesau.

Cynhelir y prosiect diolch i dros £10 miliwn o arian Cydgyfeirio'r UE trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) sy'n arwain y prosiect ac mae'n cael ei gyflwyno gan brifysgolion a cholegau addysg uwch ar draws Cymru. Yn ogystal â'r lleoliadau gwaith, bydd y rhaglen yn cynnig ystod o gyfleoedd gan gynnwys sefydlu Academi i Raddedigion a fydd yn rhoi hyfforddiant i annog unigolion i ddefnyddio'u gwybodaeth, eu sgiliau, a'u potensial arloesol yn economi Cymru.

I nodi'r cyhoeddiad ymwelodd y Gweinidog dros Addysg â Concrete Canvas sy'n cymryd rhan yn rhaglen GO Wales.

Meddai Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: "Bydd GO Wales yn helpu i ddarparu ystod o wasanaethau sy'n helpu myfyrwyr, graddedigion a busnesau yng Nghymru. Mae'n cynnig y cyfle i'r rheini sydd mewn

graddedigion o ansawdd uchel a rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan mewn prosiect 10 wythnos annibynnol. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle inni ddatblygu'n gyflym y meysydd hynny lle nad oes digon o adnoddau a rhoi prawf ar weithwyr posibl ar gyfer y dyfodol. Rhoddodd tîm GO Wales gymorth trwy gydol y prosiect ac o ganlyniad i hynny mae'r cyflogwr a'r graddedigion wedi elwa ar y profiad."

Ymhlith y graddedigion sydd wedi elwa ar y profiad hwn mae Marcin Kujawski. Cafodd ei recriwtio i ymgymryd â phrosiect cymhleth yn Concrete Canvas a oedd yn gofyn am rywun â chefndir ym maes peirianneg i wneud ymchwil i gynhyrchion newydd a'u datblygu. Erbyn diwedd y prosiect dangosodd Marcin fod ganddo sgiliau hynod o berthnasol ac felly cynigiwyd swydd amser llawn iddo.

Meddai Marcin: "O'm safbwynt i, rhoddodd y prosiect gyfle imi weld a ydw i'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm Concrete Canvas a bellach mae wedi fy arwain at yrfa mewn datblygu deunyddiau arloesol ar gyfer amrywiaeth o dasgau."

addysg uwch i ennill mantais yn y farchnad waith gystadleuol sydd gennym heddiw. Yn ogystal â helpu myfyrwyr a graddedigion i wella'u profiad trwy gael lleoliadau yn y gweithle, mae GO Wales hefyd o fantais i fusnesau trwy roi help iddyn nhw ddod o hyd i weithwyr posibl a'u cadw."

Trwy'r prosiect, bydd hyfforddiant arbenigol hefyd ar gael gyda'r nod o gynnal sgiliau lefel graddedig yng Nghymru a chefnogi graddedigion sydd am weithio fel ymgynghorwyr neu ar eu liwt eu hunain. Bydd graddedigion sy'n gweithio yng Nghymru, neu sydd am wneud hynny, hefyd yn gallu cael cymorth ar-lein trwy wefan GO Wales. Mae'r wefan yn rhoi cymorth hyfforddi i'r graddedigion hynny sydd eisoes yn gweithio yn y sector BBaCh hollbwysig.

Meddai Roger Carter, Pennaeth Ymchwil, Busnes a Chymunedau CCAUC: "Rydym wrth ein bodd y bydd y cynllun llwyddiannus hwn yn cael y cyfle i ehangu ar ôl sicrhau arian Cydgyfeirio. Mae Cymru eisoes yn arwain y ffordd o ran mentrau cyflogadwyedd i raddedigion yn y DU trwy gynnal rhaglenni unigryw megis GO Wales. Bydd adeiladu ar gynllun o'r fath yn helpu i wella sgiliau'r gweithlu ac yn cefnogi lleoliadau mewn busnesau bach. Mae hyn yn bwysig o ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol."

yn ôl

Y Cynllun Dyfarniadau Myfyrwyr Ymchwil Tramor (ORSAS)

Pwrpas y Cynllun Dyfarniadau Myfyrwyr

Sefydlwyd cynllun y DU ym 1979 i annog myfyrwyr ymchwil ôl-radd o ansawdd uchel i astudio yn y DU.

Ymchwil Tramor (ORSAS) yw talu rhan o ffioedd myfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n dod o'r tu allan i'r UE.

Mewn asesiad diweddar o'r cynllun darganfuwyd, er bod sefydliadau a myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth ariannol, i dros hanner y dyfarniadau gael eu derbyn gan fyfyrwyr a oedd eisoes wedi dewis astudio yn y DU. Ymhellach, nid oedd lefel y dyfarniadau'n ddigon uchel i ganiatáu i ORSAS gystadlu â chynlluniau ysgoloriaethau blaenllaw y DU a gwledydd tramor ac ystyriwyd bod ORSAS yn wan fel brand.

Byddai'n rhaid cael cyllideb lawer mwy, a fyddai'n golygu cymryd arian o feysydd eraill, i ddiwygio a gwella'r cynllun er mwyn ei wneud yn wirioneddol effeithiol. Felly cytunodd ein Cyngor y byddai'r cynllun ORSAS yng Nghymru yn cael ei ddirwyn i ben yn raddol o 2009/10 ac y câi'r arian ei drosglwyddo i'r gronfa hyfforddiant ymchwil ôl-radd.

Roedd CCAULI (HEFCE) eisoes wedi penderfynu, ym mis Gorffennaf 2008, y byddai'n diddymu cyllid ORSAS yn raddol yn Lloegr o 2009/10 ac yn defnyddio'r arian ar gyfer blaenoriaethau eraill.

Mwy

yn ôl

Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2008

2008 oedd y bedwaredd flwyddyn i fyfyrwyr allu defnyddio'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol i roi sylwadau ar eu profiad dysgu.

Mae'r canlyniadau ar gael ar ffurf electronig ar wefan

Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) yn un ffordd o fesur pa mor fodlon yw myfyrwyr ar eu profiad dysgu ac mae'n ein helpu ni a chyrff cyllido eraill i ddarganfod meysydd lle mae angen gwneud ymchwil pellach a datblygu polisi.

Bu myfyrwyr israddedig yn cymryd rhan yn yr Arolwg bob blwyddyn ers 2005. Gweinyddir yr arolwg gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE/CCAULI) ac mae pob sefydliad yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn cymryd rhan, yn ogystal â rhai yn yr Alban. Yng Nghymru, gall myfyrwyr

ddwyieithog Unistats www.unistats.com

ymateb i'r arolwg yn y Gymraeg.

Mae dau gwestiwn ar hugain yn yr AMC sy'n gofyn i fyfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn olaf am sylwadau ar eu rhaglenni. Mae'r cwestiynau wedi'u rhannu o dan yr is-benawdau a ganlyn:

- Addysgu ar fy nghwrs
- Asesu ac adborth
- Cymorth academaidd
- Trefniadaeth a rheolaeth
- Adnoddau dysgu
- Datblygiad personol
- Bodlonrwydd cyffredinol

Roedd y canlyniadau ar gyfer Cymru yn debyg i'r rheiny ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

Nododd canran uchel o fyfyrwyr yn Arolwg 2008 yng Nghymru fod y staff yn dda am esbonio pethau (88%) a'u bod wedi gallu cyrchu adnoddau TG cyffredinol pan oedd angen (89%).

Unwaith eto, roedd y myfyrwyr yn lleiaf bodlon ar asesu ac adborth. Dim ond 53% o fyfyrwyr yng Nghymru a oedd o'r farn bod adborth ar eu gwaith yn brydlon, a dywedodd 55% fod yr adborth wedi bod o gymorth i egluro pethau nad oeddynt yn eu deall. At ei gilydd, mynegodd 63% o'r myfyrwyr fodlonrwydd yn y categori hwn o gwestiynau. O ganlyniad i'r AMC, mae asesu ac adborth wedi cael eu nodi'n faes gwaith allweddol ar gyfer yr Academi Addysg Uwch.

www.unistats.com

yn ôl

Cynhadledd ar *Gynorthwyo Plant dan Ofal ac Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch* 2008

Mae chwe phrifysgol ac un coleg addysg

Mae prifysgolion Cymru wedi cael eu canmol am gefnogi dysgu pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal cyhoeddus.

Talodd Jane Hutt, Gweinidog Addysg y

bellach yng Nghymru eisoes wedi ennill Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch ers 2006. Mae'r Nod Ansawdd yn cydnabod ymrwymiad y sefydliadau i helpu plant dan ofal a'r rheiny sy'n gadael gofal i lwyddo yn eu hastudiaethau.

Llywodraeth, deyrnged i waith ac ymrwymiad prifysgolion a cholegau Cymru yn y gynhadledd ar *Gynorthwyo Plant dan Ofal ac Ymadawyr Gofal mewn Addysg Uwch* a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd ac a drefnwyd ar y cyd gan CCAUC ac Ymddiriedolaeth Frank Buttle.

Meddai Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: "Rhaid llongyfarch CCAUC am yr arweiniad cadarn mae wedi'i ddangos wrth yrru'r agenda hwn yn ei flaen, gyda'r canlyniad mai Cymru sy'n arwain y ffordd yn y DU os ystyriwn faint o sefydliadau yma sydd wedi derbyn Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle."

Dywedodd Gerri McAndrew, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Frank Buttle: "Rydw i wrth fy modd bod Jane Hutt wedi cymeradwyo'r Nod Ansawdd a bod saith sefydliad yng Nghymru wedi'i dderbyn hyd yma. Mae 40 o sefydliadau wedi ennill y Nod Ansawdd yng ngweddill y DU ac mae rhagor yn mynegi diddordeb bob dydd. Rydym ni'n bwriadu dyblu'r nifer hwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf."

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Rhoddodd y gynhadledd gyfle i lunwyr polisi ac ymarferwyr rannu eu profiadau o helpu plant dan ofal ac ymadawyr gofal cyn ac yn ystod eu hamser mewn addysg uwch. Gobeithiwn y bydd yr arfer da a gafodd ei rannu yn golygu y bydd mwy o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus mewn addysg uwch neu addysg bellach."

Frank Buttle Trust

yn ôl

Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhyddhau adroddiad ar Gydweithio gyda'r Sector Addysg Uwch

Ar 14 Ionawr, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar gydweithio mewn addysg uwch.

Byddwn yn ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Ionawr i drafod y casgliadau, gan gynnwys eu heffaith bosibl ar y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio a weinyddir gan CCAUC.

Mae'r Gronfa, a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi galluogi prifysgolion a cholegau yng Nghymru i ymuno â'i gilydd mewn nifer o feysydd sydd wedi elwa ar y cydweithio agos. Mae datblygiadau sydd wedi elwa ar y gronfa yn cynnwys cyfuno Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, a sefydlu Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru.

Rydym wedi croesawu'r adolygiad o'r flaenoriaeth hon ar gyfer addysg uwch ac edrychwn ymlaen at drafod yr argymhellion â'r sector AU yng Nghymru er mwyn annog cydweithio pellach, a fydd yn y pen draw o fudd i'n prifysgolion a'n colegau yn ogystal ag i gymunedau ac economi Cymru.

Mwy

yn ôl

Dadansoddiad o sefyllfa ariannol y sector AU 2006/07

Darparwyd y Ffrwd Incwm Atodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau na fyddai'r sector yng Nghymru yn cael ei roi dan anfantais yn sgil cyflwyno ffioedd hyblyg yn Lloegr o 2006/07.

Cyflwynodd Cylchlythyr W08/35HE ddangosyddion perfformiad ar gyfer iechyd ariannol y sector AU yng Nghymru, yn seiliedig ar y datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer 2006/07.

Yn 2006/07 roedd gan 12 sefydliad addysg uwch Cymru gyfanswm incwm o £1,001m (2005/06 £922m) y daeth 43.2% (2005/06 – 41.5%) ohono o grantiau CCAUC.

Yn 2006/07 roedd grant CCAUC yn cynnwys swm ychwanegol o £33.5m yn gysylltiedig â'r Ffrwd Incwm Atodol.

Mwy

yn ôl

Prifysgol yn Ennill Gwobr Busnes a Chynaliadwyedd am Adrodd Amgylcheddol

Mae cyflawniadau diweddar wedi

Mae Prifysgol Fetropolitan Abertawe wedi

cynnwys cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynaliadwyedd, sicrhau statws Masnach Deg, a'r Canllaw Gwyrdd a roddir i staff a myfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n ffurfiol i wella amgylcheddol ers 1998 ac mae wedi ennill nifer o wobrau am ei gyflawniadau mewn rheolaeth drefniadaethol ac yn y cwricwlwm.

goresgyn cystadleuaeth gref i ennill Gwobr Busnes a Chynaliadwyedd Cymru 2008 am ei hadrodd amgylcheddol i gyrff gyda mwy na 50 o weithwyr.

Roedd y wybodaeth helaeth a roddir i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr wedi creu argraff arbennig ar y beirniaid.

yn ôl

Astudiaeth o Arfer Da mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang

Mae SQW Ltd wedi cael ei benodi i ymgymryd â'r astudiaeth hon a fydd yn darparu asesiad gwrthrychol a chadarn o'r cynnydd a wnaed gan sefydliadau addysg uwch wrth weithredu gwerthoedd cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang ar draws y sefydliad.

Bydd yr adroddiad yn ymdrin ag:

- ymrwymiad ac arweinyddiaeth;
- dysgu ac addysgu;
- rheolaeth sefydliadol; partneriaethau; ac
- ymchwil a monitro

Bydd yn galluogi sefydliadau i'w cymharu eu hunain â'u cyd-sefydliadau a chymaryddion rhyngwladol perthnasol.

Bydd yn darparu adolygiad cynhwysfawr o'r maes yng Nghymru; bydd yn cyfrannu at y cynllun gweithredu newydd arfaethedig ar gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei ryddhau cyn bo hir; a bydd yn adnodd gwerthfawr at y dyfodol.

Gwefan ESD&GC

yn ôl

Fforwm Polisi Lefel Uchel Uned Ewrop AU y DU

Corff i'r sector cyfan yw Uned Ewrop sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r materion Ewropeaidd sy'n effeithio ar

addysg uwch yn y DU ac o gydgysylltu ymwneud y DU â chynlluniau a thrafodaethau Ewropeaidd. Mae polisi'r Uned yn cael ei lywio gan y Fforwm Polisi Lefel Uchel.

Cynhaliodd CCAUC cyfarfod diweddaraf Fforwm Polisi Lefel Uchel Uned Ewrop AU y DU ar 14 Tachwedd yng Nghaerdydd.

Fe'i cadeiriwyd gan Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe, yr Athro Richard B Davies, a bu'n edrych ar:

- safbwynt sector AU y DU ar ddyfodol Proses Bologna ar ôl 2010;
- gweithredu'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd ar gyfer Dysgu Gydol Oes ar draws y DU; a'r
- Agenda Ewropeaidd ar gyfer ddiwygio AU yn 2009: adeiladu ar y llwyddiant a'r amrywiaeth a geir ar hyd a lled y DU *(papur gan sector AU Cymru)*.

UK HE Europe Unit

yn ôl

Consortiwm Rhyngwladol Cymru

www.walesinternationalconsortium.com

Casgliad cyffredinol yr ymgynghorwyr a wnaeth yr adolygiad yw bod y Consortiwm wedi cwrdd â'r rhan fwyaf o'i amcanion, ac wedi rhagori ar rai ohonynt, gan gynnwys ei brif darged mewn perthynas â niferoedd o fyfyrwyr rhyngwladol.

Yn ei gyfarfod ym mis Medi, cytunodd ein Cyngor i barhau i gyfrannu'n ariannol at Gonsortiwm Rhyngwladol Cymru am dair blynedd arall: yn benodol, i gyfrannu £74,450 ym mhob blwyddyn ariannol o 2009-10 i 2011-12.

Mae hyn yn dilyn canlyniadau adolygiad o'r Consortiwm a wnaed gan CHEMS Consulting, ac a gomisiynwyd gan AUC drwy gytundeb gyda CCAUC**.**

yn ôl

Adroddiad arbennig

Y Rhaglen Rheoli Gwybodaeth ar Draws Partneriaid (MIAP)

Beth yw MIAP?

Y Rhaglen Rheoli Gwybodaeth ar Draws Partneriaid (MIAP)

Sefydlwyd y Rhaglen Rheoli Gwybodaeth ar Draws Partneriaid (MIAP) yn Lloegr yn 2002 gan yr adran a ragflaenodd yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS) a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF).

Ei nod oedd symleiddio casglu a rhannu gwybodaeth am ddysgu a chyflawniad rhwng dysgwyr unigol a chyrff addysg a hyfforddiant.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Bartner ac yn cael ei chynrychioli ar Fwrdd Rhaglen MIAP.

Beth mae MIAP yn ei wneud?

Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr

Mae Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr MIAP ar gael ar y rhyngrwyd ac mae'n gallu neilltuo Rhif Dysgwr Unigryw i bob person dros 14 oed sydd mewn addas a hyfforddiant a chadarnhau gyda hwy sut mae'r data am eu dysgu a'u cyflawniad yn cael eu rhannu.

Rhif Dysgwr Unigryw

Mae'r gwasanaeth ar gael bellach ar draws y sector addysg (ysgolion, colegau chweched dosbarth, AB ac AU) yng Nghymru a Lloegr.

Sut y bydd hyn o fudd i brifysgolion a cholegau yng Nghymru?

Bydd sefydliadau addysg uwch ar eu hennill maes o law wrth i ddata mwy manwl am unigolion gael eu casglu at ddefnydd ysgolion, sefydliadau addysg ôl-16 a phrifysgolion ledled y DU.

Beth am y Fagloriaeth Gymreig?

Ym mis Medi, rhagbrofodd Cymru system agregu gyfrifiadurol newydd i gefnogi ymestyn y Fagloriaeth Gymreig.

Sut mae sefydliadau'n ymuno â'r Gwasanaeth

Cofrestru Dysgwyr?

I ddechrau, bydd y Rhif Dysgwr Unigryw yn cael ei gyflwyno i nifer cyfyngedig o ysgolion a cholegau AB yng Nghymru a fydd yn cofrestru fel defnyddwyr y Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr er mwyn cael Rhifau Dysgwr Unigryw i'w dysgwyr. Disgwylir y bydd pob SAU yng Nghymru a Lloegr yn dechrau defnyddio Rhifau Dysgwr Unigryw o fis Medi 2009.

Ar hyn o bryd mae Rhif Dysgwr Unigryw gan dros 3 miliwn o ddysgwyr.

Beth am gasglu data?

Mae maes Rhif Dysgwr Unigryw wedi cael ei gynnwys yn setiau data HESA ac UCAS.

Cofrestr Darparwyr Dysgu'r DU (UKRLP)

Os hoffech ddarganfod rhagor am wasanaethau MIAP, ewch i www.miap.gov.uk neu cysylltwch â Lynne Thomas, Ymgynghorydd Gweithredu AU ar Dîm MIAP, i gael mwy o wybodaeth. lynne.thomas@lsc.gov.uk

Mae MIAP yn symleiddio'r ffordd mae gwybodaeth am ddysgwyr a chyrff addysg a hyfforddiant yn cael ei chasglu, ei thrin a'i rhannu.

yn ôl

Cylchlythyrau diweddar

W09/02HE: *Accounts Direction to Higher Education Institutions for 2008-09* (Saesneg yn unig)

W09/03HE: *Primary Initial Teacher Training: Intake targets 2009/10* (Saesneg yn unig)

W09/04HE: *Secondary Initial Teacher Training: Intake targets 2009/10* (Saesneg yn unig)

Gwybodaeth am Ansawdd Addysgu: Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2009 W08/34HE

Rhoddodd y cylchlythyr hwn wybodaeth i'r holl sefydliadau am y cynlluniau ar gyfer Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) 2009 ac mae hefyd yn darparu arweiniad ar hyrwyddo AMC 2009. Bydd hyn o ddiddordeb i'r staff sy'n cydlynu'r AMC o fewn sefydliadau.

yn ôl

Amdanom ni

Mae CCAUC yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn dosrannu arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn 11 sefydliad addysg uwch.

Rydym hefyd yn cyllido gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru a chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Nid ydym yn cyllido myfyrwyr yn uniongyrchol.

Yn ychwanegol at ein cyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllido, dyheadau a phryderony sector addysg uwch yng Nghymru

www.hefcw.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r materion yn y newyddlen hon, neu unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yng Nghymru, anfonwch neges e-bost at

info@hefcw.ac.uk neu ffonio **029 2076 1861.**

I **dynnu'ch enw oddi ar restr danysgrifio'r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** gyda'r geiriau 'tynnu enw tanysgrifio i'r newyddlen'yn y blwch pwnc.

I gael cyngor am gyllid ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru, ewch i: **Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

yn ôl

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

HEFCW newsletter

February 2009

Please contact Emma Raczka on 029 2068 2225 or at emma.raczka@hefcw.ac.uk if you would like this newsletter in an alternative format, such as large text,

In This Issue

- HEFCW website
- HEFCW Annual Public Meeting and 2007-08 Annual Report
- Research Assessment Exercise results for Wales
- New HEFCW Council members
- £17 million GO Wales announcement
- Overseas Research Students Awards Scheme to be phased out
- 2008 National Student Survey
- 2008 Supporting Looked After Children and Care Leavers in Higher Education Conference
- Auditor General report on collaboration in HE sector in Wales
- Analysis of financial position of HE sector 2006/07
- University wins award for environmental reporting
- Good practice in education for sustainable development and global citizenship
- UK HE Europe Unit's high level policy forum
- Wales International

HEFCW website

We will be launching a new website in 2009.

To help us make provide the best possible website, you have until Friday, 20 February to complete an online questionnaire about your HEFCW website habits and needs, which you can access here.

www.hefcw.ac.uk

HEFCW website survey

HEFCW Annual Public Meeting

The 2008 HEFCW Annual Public Meeting took place on 9 December 2008 at the University of Glamorgan's ATRiuM building in Cardiff city centre

Staff from higher education institutions, partner bodies and others with an interest in higher education attended.

We launched our latest Annual Report at the meeting. You can download a copy here. Alternatively, please email info@hefcw.ac.uk if you would like a hard copy.

Back

Wales research results revealed

Universities in Wales are continuing to deliver world-class research according to the results of the 2008 Research Assessment Exercise (RAE), published in December.

The exercise, which assesses the quality of research in higher education institutions throughout the UK, shows that Wales remains a vibrant player on the UK research stage.

Wales saw strong performances over a range of subjects, with world-class achievement in areas including civil engineering, computer science and informatics, psychiatry and neuroscience, psychology and Celtic studies.

14% of all research activity submitted by Welsh institutions was judged to be 'world-leading', with a further 35% assessed as 'internationally

Consortium

- Special report – Managing Information Across Partners (MIAP)
- Circulars
- About us

Links

2007-08 HEFCW Annual Report

www.hefcw.ac.uk

Contact Us

www.hefcw.ac.uk

info@hefcw.ac.uk

emma.raczka@hefcw.ac.uk

11 institutions in Wales made a total of 144 submissions to the exercise, which covered 2,578 members of staff – over 10% more than for the last exercise in 2001.

excellent'.

Roger Thomas, Chairman of HEFCW, said: "We are very pleased to see a strong research performance from Welsh universities in so many areas. The challenge now is to use these strengths to boost Wales's knowledge economy and create wealth and jobs, which is particularly important given the current economic climate."

Professor Philip Gummett, Chief Executive of HEFCW, said: "We should celebrate the impressive research that is done in higher education in Wales, and the contribution it makes to the reputation of Wales in the world.

"We recognise, though, that research remains a highly competitive process. We will continue to work to strengthen our research base in Wales. Maintaining our high standing relative to UK and global competition remains a big challenge both for us in HEFCW and for those in our universities charged with continually raising our research ambitions."

www.rae.ac.uk

Back

New HEFCW Council members

"Never has Higher Education's key role in promoting innovation, research and enterprise been more important for Wales.

"I am delighted that we have been able to attract such high calibre members to the Council and I look forward to working with them in their new or renewed roles."

First Minister Rhodri Morgan, commenting

Jane Hutt, Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills has announced the appointment of four new members to the Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW), and the reappointment of one existing member.

The newly appointed members are Professor Katherine Oglesby, Dame Alexandra Burslem, Mr David Allen and Professor Anthony Hazell. Sir Brian Smith has been reappointed for a third term.

Jane Hutt said: "I am pleased to be able to appoint people to the Council who bring with them substantial experience and knowledge.

on the new appointments.

I look forward to working with them closely over the next few years."

More

Back

£17 million skills initiative gets the go-ahead

Case study
Since its relocation to Pontypridd 18 months ago, Concrete Canvas has gone from strength to strength, winning a MoD contract to supply Concrete Cloth to the frontline in Afghanistan.

The company, founded by William Crawford and Peter Brewin, produces hardened shelters that require only water and air for construction and can be deployed rapidly. These 'concrete cloth' technologies can provide essential shelter for people from warzones to refugee camps to disaster zones.

William says that much of their success is down to recruiting the right people.

He said: "The GO Wales programme has been an ideal tool for finding the

A £17 million initiative to help graduates get the best start to their career has been given the go-ahead for Convergence funding by Jane Hutt, Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills announced on Wednesday 11th February.

GO Wales will provide almost 4,000 students and graduates with training and development opportunities to prepare them for the business world. With a focus on work placements, the scheme will also mean that SMEs and other organisations gain access to higher level skills to boost their business activities.

Made possible with over £10 million of EU Convergence funding through the Welsh Assembly Government, the project is led by the Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW) and delivered by universities and colleges of higher education across Wales. In addition to the work placements, the programme will offer a range of opportunities including the establishment of the Graduate Academy which will provide training to encourage individuals to use their knowledge, skills and innovative potential in the Welsh economy.

To mark the announcement the

right people for our company. What makes this kind of programme so valuable is that it has enabled us to reach a wide range of high quality students and graduates for a self contained 10 week project.

“This has given us the opportunity to make rapid progress on areas which are under-resourced and also to trial potential future employees. The GO Wales team provided support throughout the duration of the project and the result is that both the employer and the graduate have gained from the experience.”

One graduate who has benefited first hand is Marcin Kujawski. He was recruited for a complex project at Concrete Canvas which required someone with an engineering background to conduct research and development for new products. By the end of the project he demonstrated he had highly relevant skills, and was offered a full time position.

Marcin said: “From my perspective, the project gave me the opportunity to see if I enjoyed working as part of the Concrete Canvas team and it has now led to a career developing really innovative materials for a wide range of

Education Minister visited Concrete Canvas who are taking part in the GO Wales programme.

Jane Hutt, Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, said: "GO Wales will help deliver a range of services proven to help students, graduates and businesses in Wales. It offers those in higher education the chance to gain a head start in today's competitive job market. As well as helping students and graduates broaden their experience in a work setting Go Wales will benefit companies by helping them spot and retain future potential employees.”

Through the project, specialist training will also be available aimed at retaining graduate level skills in Wales and supporting graduates who want to work on a consultancy or freelance basis. There will also be online support via the GO Wales website for graduates working or wanting to work in Wales, and support for the training of graduates already working in the vital SME sector.

Roger Carter, Head of Research, Business and Communities at HEFCW, said: “We are delighted that this successful scheme will have an opportunity to expand after being awarded Convergence funding.

“Wales is already at the forefront of graduate employability initiatives in the UK with unique schemes like GO Wales, and building upon it will not only help improve the skills of the workforce, it will also support small business placements, which is important in the current economic climate.”

Back

Overseas Research Students Awards Scheme to be phased out

The UK-wide scheme was established in 1979 in to encourage high quality postgraduate research students studying in the UK.

The Overseas Research Students Awards Scheme (ORSAS) has provided partial fee awards for postgraduate research students from outside the EU.

A recent evaluation of ORSAS found that, while institutions and students appreciated the financial support, more than half of the awards were received by students who had already chosen to study in the UK. Furthermore, the level of awards was not high enough to allow ORSAS to compete with leading UK and international scholarship schemes and the ORSAS brand was considered weak.

A significantly larger budget, diverting funds from other areas, would be needed to rebadge and retain the scheme to make it genuinely effective. Our Council therefore agreed that the ORSAS scheme in Wales would be phased out from 2009/10 and the funding would be transferred to postgraduate research training (PGR) funding.

HEFCE had already decided, in July 2008, to phase out ORSAS funding in England from 2009/10 and to redeploy the funding towards other priorities.

More

Back

National Student Survey 2008

The National Student Survey (NSS) is one way of measuring students' satisfaction with their learning experience, and helps us and other funding bodies identify areas for further research and policy development.

The NSS has been carried out annually with final year undergraduate students since 2005. The

2008 was the fourth year in which students were able to use the National Student Survey for feedback about their learning experience.

The results are available electronically on the bilingual Unistats website www.unistats.com

survey is administered by the Higher Education Funding Council for England (HEFCE), with all institutions in England, Wales and Northern Ireland participating, in addition to some in Scotland. In Wales, students can respond to the survey in Welsh.

The NSS asks final year undergraduate students for feedback on their programmes in twenty two questions, split into the following subheadings:

- Teaching on my course
- Assessment and feedback
- Academic support
- Organisation and management
- Learning resources
- Personal development
- Overall satisfaction

The results for Wales were similar to the results for the UK as a whole.

A high percentage of students in the 2008 survey in Wales expressed satisfaction that staff were good at explaining things (88%) and that they had been able to access general IT resources when they needed to (89%).

The lowest levels of satisfaction were once more reserved for assessment and feedback. Only 53% of students in Wales expressed satisfaction that feedback on their work had been prompt, and 55% identified satisfaction that the feedback had helped them to clarify things they had not understood. Overall 63% of students expressed satisfaction regarding this category of questions. As a result of the NSS, assessment and feedback has been identified as a key area of work for the Higher Education Academy.

www.unistats.com

Back

2008 Supporting Looked After

Welsh universities have been praised for supporting the learning of young people who have been in public care.

Jane Hutt, the Welsh Assembly Government's Education Minister, paid

Children and Care Leavers in Higher Education Conference

Six Welsh universities and one further education college have already been awarded The Frank Buttle Trust Quality Mark for Care Leavers in Higher Education since 2006. The Quality Mark recognises universities' commitment to enabling looked after children and care leavers to succeed in their studies.

tribute to the work and commitment of Welsh universities and colleges at the jointly hosted HEFCW and The Frank Buttle Trust conference on *Supporting Looked After Children and Care Leavers in Higher Education* on 12 November.

Jane Hutt, the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills said: "HEFCW should be congratulated for the real leadership it has shown in driving this agenda forward, with the result that - as measured by institutions that have the Frank Buttle Trust Quality Mark - Wales is the clear UK leader".

Gerri McAndrew, Chief Executive of The Frank Buttle Trust, said: "'I'm delighted that Jane Hutt has endorsed the Quality Mark and that to date seven institutions in Wales have been awarded it. Throughout the rest of the UK there are forty institutions with the Quality Mark with more expressing interest daily. We are aiming to double this number over the next two years."

Professor Philip Gummett, Chief Executive of HEFCW, said: "The conference provided an opportunity for policy-makers and practitioners to share their experiences of supporting looked after children and care leavers into and during their time at higher education. We hope the good practice shared will result in more care leavers progressing onto successful careers in higher or further education."

Frank Buttle Trust

Back

Auditor General for Wales releases report on

On 14 January, the Auditor General published a report about collaboration in higher education.

HEFCW appeared before the National Assembly for Wales's Audit Committee on 21 January to discuss the findings, including their potential impact on the HEFCW-administered Reconfiguration

Collaboration with the Higher Education Sector

and Collaboration Fund.

The Fund, provided by the Welsh Assembly Government, has enabled universities and colleges in Wales to join forces in a number of areas that have benefited from closer working. Developments which have gained from the fund include the merger of Cardiff University and the University of Wales College of Medicine, and the Wales Institute for Cognitive Neuroscience.

We have welcomed the review of this priority for higher education, and look forward to working through the recommendations with the HE sector in Wales to encourage further collaborations, which will ultimately benefit our universities and colleges, as well as Wales's communities and economy.

More

Back

Analysis of the financial position of the HE sector 2006/07

The Supplementary Income Stream (SIS) was given by the Welsh Assembly Government to ensure that the sector in Wales was not financially disadvantaged by the introduction of flexible fees in England from 2006/07.

Circular W08/35HE presented financial health performance indicators for the HE sector in Wales, based on the audited financial statements for 2006/07.

In 2006/07 there were 12 higher education institutions in Wales with a total income of £1,001m (2005/06 £922m) of which 43.2% (2005/06 – 41.5%),came from HEFCW grants.

In 2006/07 the HEFCW grant included an additional sum of £33.5m that related to the Supplementary Income Stream.

More

Back

University wins Business and Sustainability award for environmental

reporting

Recent achievements have included the publishing of an annual sustainability report, the achievement of Fair Trade status, and the Green Guide provided to staff and students. SMU has been formally committed to environmental improvement since 1998 and has won a number of awards for its achievements both in organisational management and in curriculum.

Swansea Metropolitan University (SMU) has beaten a strong field of contenders to win the Wales Business and Sustainability Award 2008 for its environmental reporting for organisations with more than 50 employees.

The judges were particularly impressed with the extensive information provided to students, staff and visitors.

Back

Good Practice in Education for Sustainable Development and Global Citizenship Study

The report will cover:

- commitment and leadership
- learning and teaching
- institutional management
- partnerships and
- research and monitoring

SQW Ltd has been appointed to take forward this study which will provide an objective and robust assessment of progress made by higher education institutions in implementing the values and actions on sustainability and global citizenship across an institution.

It will allow institutions to compare themselves to their peers and relevant international comparators.

It will provide a comprehensive review of ESDGC in Wales; will be able to feed into the proposed new action plan on sustainability and global citizenship that the Welsh Assembly Government intends to release shortly; and will be a valuable resource for the future.

ESD&GC website

Back

UK HE Europe Unit's High Level Policy Forum

The Europe Unit is a sector-wide body which aims to raise awareness of the European issues affecting UK higher education and to coordinate the UK's involvement in European initiatives and debates. The policy positioning of the Unit is informed by the HLPF.

HEFCW hosted the most recent UK HE Europe Unit's High Level Policy Forum meeting on 14 November in Cardiff.

Chaired by Swansea University Vice-Chancellor Professor Richard B Davies, it looked at:

- the UK HE sector's position on the future of the Bologna Process beyond 2010;
- the implementation of the European Qualifications Framework for Lifelong Learning across the UK; and
- the European Agenda for HE reform in 2009: capitalising on the success and diversity found throughout the UK *(paper by Welsh HE sector)* .

UK HE Europe Unit

Back

Wales International Consortium

www.walesinternationalconsortium.com

The overall conclusion by the consultants who carried out the review is that WIC has met and, in some cases exceeded, most of its stated objectives, including its principal target in relation to international student numbers.

At its September meeting, our Council agreed to continue our financial contribution to the Wales International Consortium (WIC) for a further three years; specifically, to contribute £74,450 to WIC in each of the years FY2009-10 to 2011-12.

This follows the outcomes of a review of WIC by CHEMS Consulting, commissioned by HEW in agreement with HEFCW.

Back

Special report

Managing Information Across Partners Programme (MIAP)

What is MIAP?

The Managing Information Across Partners Programme (MIAP) was established in England in 2002 by the predecessor department of Department for Innovation Universities and Skills (DIUS) and the Department for Children, Schools and Families (DCSF).

MIAP: Managing Information Across Partners Programme

It was designed to streamline the collection and sharing of information on learning and achievement between individual learners and education and training organisations.

The Welsh Assembly Government is a Partner organisation and represented on the MIAP Programme Board.

What does MIAP mean in practice?

MIAP's internet-based Learner Registration Service (LRS) is capable of assigning a Unique Learner Number (ULN) to every person over the age of 14 in education and training and confirms with them how their learning and achievement data is shared.

LRS: Learner Registration Service

ULN : Unique Learner Number

The service is now available across the education sector (schools, sixth form colleges, FE and HE) in England and Wales.

How will this benefit universities and colleges in Wales?

Higher Education Institutions (HEIs) will ultimately benefit from access to more accurate, individualised data as this becomes available to schools, post-16 education institutions and universities around the UK.

What about the Welsh Baccalaureate Qualification?

In September, Wales piloted a new computer-based aggregation system to support the roll-out of the Welsh Baccalaureate Qualification.

How do institutions sign up for the Learner Registration Service (LRS)?

The ULN will initially be introduced in post-16 learning in a limited number of schools and FE Colleges in Wales which will register as users of the Learner Registration Service (LRS) to obtain ULNs for their learners. There is an expectation that all HEIs in England and Wales will start to use ULNs from September 2009.

There are currently over 3 million learners with a ULN.

What about data collection?

A ULN field has been established in both the HESA and UCAS datasets.

The UK Register of Learning Providers (UKRLP)

If you would like to find out more about MIAP's Services go to www.miap.gov.uk or contact Lynne Thomas, an HE Implementation Consultant on the MIAP Team, for further information. lynne.thomas@lsc.gov.uk

MIAP simplifies the way that information about learners and education and training organisations is collected, handled and shared.

Back

Circulars issued recently:

W09/02HE: Accounts Direction to Higher Education Institutions for 2008-09

W09/03HE: Primary Initial Teacher Training: Intake targets 2009/10

W09/04HE: Secondary Initial Teacher Training: Intake targets 2009/10

Teaching Quality Information: National Student Survey 2009 W08/34HE

This circular provided information to all institutions on the plans for the 2009 National Student Survey (NSS) and also provides guidance on promoting the 2009 NSS. This will be of interest to staff involved in co-ordinating the NSS within institutions.

Back

hefcw

About us

HEFCW is responsible for funding higher education in Wales.

We distribute funds made available by the Welsh Assembly Government to support education, research and related activities at 11 higher education institutions.

We also fund the teaching activities of the Open University in Wales and higher education courses at further education colleges.

We do not fund students directly.

In addition to our funding responsibilities, HEFCW provides advice to the Welsh Assembly Government on the funding needs, aspirations and concerns of the higher education sector in Wales.

www.hefcw.ac.uk

For further information about any of the issues in this newsletter, or any others relating to higher education in Wales, please email **info@hefcw.ac.uk** or telephone **029 2076 1861.**

To **unsubscribe** from this newsletter, please email **info@hefcw.ac.uk** with the words ‘unsubscribe - newsletter’ in the subject box.

For advice about student funding and finance in Wales, visit **Student Finance Wales.**